# EMANUEL RINGELBLUM A'R ARCHIF ONEG SHABBAT

CADW'R COF YN FYW
Diwrnod Cofio'r Holocost 2015

YMDDIRIEDOLAETH DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST

**Wedi'i garcharu yng Ngeto Warsaw gyda channoedd o filoedd o Iddewon oedd yn credu'n gywir eu bod yn wynebu marwolaeth sicr, trefnodd yr hanesydd Emanuel Ringelblum yr archif *Oneg Shabbat* i gofnodi manylion eu bywydau a'r amodau yn y geto. Rhoddwyd enw côd *Oneg Shabbat* ar yr archif, sy'n golygu 'pleserau'r Saboth'.**



'Daethom i'r casgliad nad oedd yr Almaenwyr yn talu llawer o sylw i'r hyn roedd yr Iddewon yn ei wneud ymysg ei gilydd... nid oedd yn syndod y gallai gwaith Oneg Shabbat ddatblygu'n llwyddiannus'

Ganwyd Emanuel Ringelblum yn 1900 yn Buchach (sydd bellach yn yr Iwcrain) a daeth yn athro hanes yn Warsaw ar ôl gorffen ei Ddoethuriaeth am hanes yr Iddewon yn Warsaw yn ystod yr oesoedd canol. Priododd Yehudis a chawsant fab, Uri.

Ym mis Hydref 1940 sefydlwyd Geto Warsaw. Casglwyd y teulu Ringelblum at ei gilydd a'u gorfodi i'r Geto,ynghyd â thua 400,000 o Iddewon o Warsaw a'r cyffiniau. Er bod yr Iddewon yn cyfrif am tua 30% o boblogaeth y ddinas, dim ond 2.4% o faint Warsaw oedd y Geto. Roedd yr amodau yn gyfyng iawn yno, gyda chyfartaledd o saith o bobl ym mhob ystafell a'r bwyd yn cael ei ddogni'n llym gan y Nazïaid. Nid oedd yn argoeli'n dda i'r sawl oedd yno.

Dechreuodd Emanuel fenter i greu archif cyfrinachol i nodi'r ffordd y cafodd yr Iddewon eu trin yn y Geto. Rhoddwyd enw côd *Oneg Shabbat* ar yr archif, sy'n golygu 'pleserau'r Saboth'. Dywedodd Emanuel mai diben yr archif oedd 'casglu deunydd a dogfennau ynghyd oedd yn ymwneud â merthyriadur yr Iddewon yng Ngwlad Pwyl'. Cymerodd lawer o wahanol bobl ran a chasglu deunydd am bob agwedd ar eu bywydau yng Ngeto Warsaw yn amrywio o ddyddiaduron, papurau newydd ac adroddiadau swyddogol i bosteri, ffotograffau, tocynnau tram a phapur losin. Cadwyd y dogfennau mewn buddeiau llaeth a bocsys a'u claddu mewn tri lleoliad gwahanol yn y Geto.

Ym mis Ebrill 1943 anfonwyd Emanuel gan y Nazïaid i wersyll llafur, a dihangodd oddi yno ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Yna cuddiodd mewn byncer tanddaearol yn Warsaw gyda'i wraig Yehudis, eu mab Uri a 34 o bobl eraill, lle y parhaodd i ysgrifennu a chasglu gwybodaeth.

Canfuwyd y byncer gan y Nazïaid ym mis Mawrth 1944 a llofruddiwyd pawb fu'n cuddio yno. Dim ond tri o gyfranogwyr i'r archif *Oneg Shabbat* oroesodd y rhyfel ac yn 1946 llwyddon nhw ddatgladdu un o'r buddeiau llaeth. Canfuwyd ail ffuddai bedair blynedd yn ddiweddarach. Nid yw'r drydedd wedi'i chanfod hyd yma.

Rhestrir yr archif heddiw ar gofrestr Cof y Byd UNESCO, sy'n rhestru treftadaeth ddogfennol o werth cyffredinol arwyddocaol a neilltuol. Nod y gofrestr yw hwyluso'r gwaith cadwraeth, cynorthwyo mynediad cyffredinol i'r archif a chynyddu ymwybyddiaeth.



Y caead lle y cuddiwyd a chladdwyd rhannau o'r archif *Oneg Shabbat* yng Ngeto Warsaw
© Sefydliad Hanesyddol Iddewig



**I gael rhagor o wybodaeth:**

- Darllenwch ragor am y getoau a sefydlwyd gan y Nazïaid ar wefan HDMT
- Sefydliad YIVO dros Ymchwil Iddewig
- *The War against the Jews 1933-1945,* Lucy S. Dawidowicz, 1987.
- *The Years of Extermination - Nazi Germany and the Jews 1939-1945*, Saul Friedländer, 2007